26 Mai 2010

DATGANIAD I'R WASG

I'w rhyddhau'n syth

Dafad Ddu'r Teulu

Wedi i Carrie John o Wdig, Abergwaun, ymgeisio mewn cystadleuaeth yn haf 2009, roedd yn hapus iawn i glywed ei bod hi wedi ennill Hwrdd Siglo Ddu!

Gwnaeth Carrie, 13 oed, ennill y gystadleuaeth 'Rhowch Eich Newid Mân', a'i cynhaliwyd gan Cynnal Cymru - Sustain Wales; gyda'i haddewid i dyfu mwy o lysiau - 'I pledge to grow more veg.'

Gwnaeth darlun lliwgar Carrie o'i haddewid tynnu sylw'r beirniaid gan arwain ati hi'n ennill gwobr gyntaf y gystadleuaeth.

Roedd yr Hwrdd Siglo, a roddwyd i'r gystadleuaeth gan y Rocking Sheep Company yn Harlech, yn wobr addas oherwydd natur cynaladwy'r cwmni - maent yn gwneud eu defaid siglo o ddeunyddiau cynaladwy sydd yn dod o Gymru.

Mae'r gystadleuaeth, fydd yn cael ei gynnal eto yn ystod misoedd yr haf eleni, yn un o nifer o ffyrdd y mae Cynnal Cymru yn annog pobl i wneud newidiadau bach yn eu bywydau i helpu mynd i'r afael â newid hinsawdd.

Dywedodd Carrie: 'Rwy'n caru garddio a helpu Mam gyda'r planhigion. Mae'n neis fod tu allan ac yn hwyl i weld y planhigion yn tyfu. Ni'n tyfu tomatos a sbigoglys ac mae gyda ni goeden afalau. Fi ffili aros nes bo' nhw'n barod i'w byta!'

-DIWEDD-

Am wybodaeth bellach cysylltwch â:
Gwenllian Evans ar 029 2019 2025 neu e-bostiwch gwenllian@cynnalcymru.com.

Nodiadau ar gyfer golygyddion

- Mae Cynnal Cymru - Sustain Wales yn sefydliad aelodaeth dielw sy'n hyrwyddo byw cynaladwy.
- Mae'r gystadleuaeth 'Rhowch Eich Newid Mân' yn gystadleuaeth flynyddol a gychwynnodd yn 2008. Bydd cystadleuaeth 2010 yn cychwyn yn wythnos gyntaf mis Awst.
- Am wybodaeth bellach, ewch at CynnalCymru.com.
- Am wybodaeth bellach ar y Rocking Sheep Company, ewch at TheRockingSheepCompany.com.